# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Hybrid 26 Mawrth 2024 am 7:00 yr hwyr.

**Presennol**
John Brinley Jones (C) Thomas Victor Jones, Hywel James Sinclair Evans, Gwenllian Davenport Hughes, Greta Hughes, William Roger Jones, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith, Keith Williams, Ann Llwyd (Cyfieithydd), Carys Jones (Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**
David Andrew Parry
Kevin Wheatley

**2. Datgan Buddiant**
Dim

**3.Derbyn Cofnodion Cyfarfod 25.02.24**

Nododd Gwenllian Davenport Hughes fod un peth angen ei gywiro yn y cofnodion sef yr amcan bris: amcan bris (quote) gan H. S. Davies oedd o am y gwaith yn y Neuadd.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilydd: Ian Goronwy Williams

**4. Unrhyw Fater Brys**

<u>Parcio Anghyfreithlon – Y Gali, Llanbedrog</u>
Nododd Alan Harper-Smith fod yr Adran Forwrol wedi mynd a'r arwydd o'r safle, a'u bod wedi addo rhoi arwydd arall yn ei le. Cytunwyd ei bod yn bwysig cael arwydd arall yn ei le cyn gynted á phosib. Cadarnhaodd Alan Harper-Smith mai Mr Bryn Prichard yw Pennaeth newydd yr Adran. Bydd Cyngor Gwynedd yn anfon Warden Traffic i'r lleoliad yma hefyd. Derbyn fel gwybodaeth.

Holodd Hywel James Sinclair Evans os oedd yn bosib lansio cwch yno? Cadarnhaodd Greta Hughes fod yna gysylltiad hanesyddol ac fod cychod i'w gweld yno ar hen luniau. Nododd fod regatta yno erstalwm ac fod hawl tramwyo yn syth i'r mór. Dywedodd Alan Harper-Smith fod rhaid gwneud cais am oriad i agor y bariau. Cytunodd John Brinley Jones i chwilio am ebost am y mater.

<u>Bin Brown – Y Fynwent</u>
Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi ebostio Roger Fisher i holi os fyddai ganddo ddidordeb i fynd â'r bin brown ger y giat pob pythefnos i gael ei wagio gan y cyngor (nos Fercher a bore Iau). Nododd y Clerc fod gan Roger Fisher ddiddordeb. Cynnigiodd William Roger Jones wneud hyn yn wirfoddol. Cytunodd o ac Ian Goronwy Williams i fynd á'r bin brown i'w wagio a'i ddychwelyd yn ól i'r fynwent

<u>Toiledau Cyhoeddus</u>
Dywedodd Alan Harper-Smith fod y toliedau cyhoeddus ar agor ers dydd Llun. Bydd yn cau ar y 1af o Dachwedd fel arfer. Ar hyn o bryd mae Cyngor Cymuned Llanbedrog yn talu £2000 i'r toledau cyhoeddus fod ar agor chwe mis y flwyddyn. Adroddodd ymhellach bod nifer o bobl wedi bod yn cwyno fod y toiledau ar gau yn ddiweddar. Mae yr Ymddiriedolaeth

Genedlaethol yn talu £1,000. Mae’r Laura o’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi nodi y byddai’r Ymddiriedolaeth yn fodlon cyfranu mwy at yr achos, ond byddant angen cadarnhad ysgrifennedig o’r gost i gadw’r toiledau’n agored 12 mis o’r flwyddyn. Cytunodd y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael cadarnhad o’r pris i gadw’r toiledau cyhoeddus yn agored drwy’r flwyddyn.  Holodd Hywel James Sinclair Evans fod y pris wedi dyblu dros fisoedd y gaeaf? Atebodd y Cadeirydd fod rhywun yn gorfod mynd yno bob dydd i agor a chau ac i lanhau. Dywedodd Ian Goronwy Williams fod pobl o gwmpas yn ystod y gaeaf hefyd yn cerdded llwybr yr arfordir. Holodd Hywel James Sinclair Evans os oedd y bar yn y gwaelod ar agor. Cadarnhaodd Greta Hughes fod y bar ar agor tan fis Tachwedd.

**5. Anaf Personol – diweddariad**
Adroddodd y Clerc fod y Cwmni Ysiwrant yn parhau i ddelio hefo’r achos ac fod PL1 wedi cael ei dderbyn

**6. Hyfforddiant**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhannu gwybodaeth ar ebost am gyrsiau/hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd Cyngorau Cymuned.

**7. Tendrau**
Cafwyd trafodaeth am dendr RJ – fydd 7 torriad yn ddigonol? Holodd Hywel Sinclair Evans od oedd RJ yn mynd á’r gwellt oddi yno hefyd? Cadarnhaodd y Cadeirydd fod RJ yn gwneud hynny, ond weithiau yn gadael y gwellt yno os oedd yn fyr. Cytunwyd yn unfrydol i nodi 7 torriad ai ychwanegu “fel bo’r angen” yn y tendr. Cadarnhaoedd y Cadeirydd fod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno tendr hefyd. Holodd Hywel James Sinclair Evans os oedd RJ yn torri ochr arall i wal Cae Hendy? Cadanhaodd y cadeirydd fod RJ yn gwneud yn union yr un gwaith á lynnedd ac fod Rhys yn defnyddio ei offer ei hun. Awgrymodd Hywel James Sinclair Evans y byddai’n syniad cael gwasanaeth Cyngor Gwyned hefyd? Cytunodd i gael gair hefo Rhys yn gyntaf.
Cytunwyd yn unfrydol.

**8. Llwybrau**
Gweler eitem 7.

**9. Y Fynwent**
Y Fynwent Newydd
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod OP yn mynd i fod yn torri’r gwair yn y fynwent. Nododd William Roger Jones fod y waliau byth wedi cael eu gorffen. Cytunodd y Cadeirydd i gael gair hefo Mr Selwyn Prichard.

**10. Cae Chwarae**
Adroddodd Hywel James Sinclair Evans fod diwrnod twtio wedi cael ei gynnal yn y Cae Chwarae ar 24/03/24. Dywedodd hefyd fod angen cael arolwg eiddo. Bu arolwg diweddaf yn 2013.
Derbyn fel gwybodaeth.
Holodd Alan Harper-Smith sut mae mynd i mewn i’r sied? Cadarnhaodd y Cadeirydd fod goriadau gan Alaw Ceris.

**11. Neuadd y Pentref**
Adroddodd Ian Goronwy Williams fod archwyliad o'r dreiniau wedi cymryd lle yr wythnos diwethaf ac yn ffodus nad oedd pethau cynddrwg ag yr oedd y cwmni diwethaf wedi ei awgrymu. Cadarnhaodd fod y beipen bridd wedi torri ( wedi plygu ac wedi ceincio) a bod tegannau wedi cael eu darganfon yn y beipen hefyd. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod wedi derbyn pris am wneud y gwaith, mae'n cynnwys gwaith ar y tri toiled ac ail-wneud y drws. Y pris yw £6,200 + TAW. Dywedodd ei fod yn bris da. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Cyngor yn cael y TAW yn ól. Awgrymodd Thomas Victor Jones ei bod hi'n bwysig iawn i fynd ymlaen hefo'r gwaith. Cytunodd William Roger Jones fod rhaid mynd ymlaen hefo'r gwaith gan fod mudiadau/ grwpiau yn talu am ddefnyddio'r neuadd.
Cynnig mynd ymlaen hefo'r gwaith: Ian Goronwy Williams
Eilio: Alan Harper-Smith
Cytunwyd yn unfrydol ar y gost.
Cytunodd Gwenllian Davenport Hughes i gysylltu hefo S. John a diolchodd i Alan Harper-Smith am ei waith. Dywedodd y Cadeirydd y byddai yntau yn siarad hefo Barbara i holi pryd fyddai'r amser gorau i wneud y gwaith, rhag tarfu ar yr Ysgol Feithrin.

Nododd Gwenllian Davenport Hughes nad oedd ddim pellach ymlaen o ran derbyn amcan bris. Nododd ymhellach ei bod wedi bod yn gwneud ymholiadau am grantiau ar gyfer talu am y gwaith yn cynnwys  Cronfa'r Loteri Genedlaethol a Community Funder.

**Unrhyw Fater Arall**

**Cais i Dorri Coed**
Cytunodd y clerc i ebostio Swyddog Coed Cyngor Gwynedd i holi am ei farn ac unrhyw TPO am y coed y mae cais wedi ei wneud i'w torri.

Adroddodd Thomas Victor Jones fod tyllau mawr yn y lón ger troiad ger Glyn y Weddw. Adroddodd ymhellach fod llifogydd mawr a dwr newydd yn crooesi'r ffordd ers tua wythnos ger Gwersyll y Pwyliaid. Dywedodd Alan Harper-Smith fod angen clirio'r afon. Awgrymodd Thomas Victor Jones fod angen cael cyfarfod ger mynedfa Penyberth hefo Cyngor Gwynedd ac Adran yr Amgylchedd. Dywedodd fod llifogydd wedi bod yn broblem yng Nghlwn Golff Pwllheli hefyd. Mae 18 o dyllau yn y Clwb, ond dim ond 9 ellir eu defnyddio. Mynegwyd pryder hefyd a gallai y dwr effeithio ar dai cyfagos. Eglurodd Greta Hughes fod yr ateb yn syml: Harbwr Bach wedi ei wneud yn bwrpasol i ddal dwr pan fo'r llanw'n uchel.

**Taliadau i'w cymeradwyo:**

(1) **Cyflog y Clerc -** £416  HMRC £104
(2) **Ann Llwyd** (Cyfieithydd) - £70
(3) **Aelodaeth Unllais** - £280
(4) **Llanw Llyn – £12.60**

Cytunwyd yn unfrydol o wneud y taliadau uchod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30/04/24 am 7 yr hwyr.**